# Polisi Buddsoddi Cyfrifol
# Partneriaeth Pensiwn Cymru

## 1 Cyflwyniad a throsolwg

1.1 Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) yw'r trefniant pŵlio ar gyfer asedau'r wyth o gronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Cymru (Awdurdodau Cyfansoddol).

1.2 Caiff trefniadau buddsoddi PPC eu goruchwylio gan Gydbwyllgor Llywodraethu (CBLl) ac fe'i cefnogir gan Weithgor Swyddogion (GS), a'u gweithredu drwy ystod o fuddsoddiadau PPC – mae hyn yn cynnwys Is-gronfeydd a reolir yn weithredol, ynghyd â mandadau goddefol o fewn marchnadoedd rhestredig; a rhaglenni buddsoddi a reolir yn weithredol mewn marchnadoedd preifat (anhylifol) - a reolir gan Reolwyr Buddsoddi PPC. Cefnogir gweithredu gan amrywiol ddarparwyr gwasanaethau, gan gynnwys y Gweithredwr a'r Ymgynghorydd Trosolwg.

1.3 Mae'r Is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol (BC) yn roi trosolwg a chyngor i'r Gweithgor Swyddogion a'r Cydbwyllgor ar ddatblygiad a gweithrediad y polisi hwn. Mae'r Is-grŵp BC yn gweithredu o dan gylch gorchwyl cytunedig.

1.4 Mae'r ddogfen hon yn amlinellu polisi PPC ar BC ar gyfer yr holl asedau sydd wedi'u buddsoddi yn PPC. Datblygwyd y polisi hwn gan PPC mewn ymgynghoriad â'r Awdurdodau Cyfansoddol.

1.5 Amcan PPC wrth baratoi a gweithredu'r polisi hwn yw gallu:

1.5.1 dangos i'r Awdurdodau Cyfansoddol fod PPC yn Fuddsoddwr Cyfrifol; a

1.5.2 galluogi'r Awdurdodau Cyfansoddol i gynhyrchu eu polisïau BC ac eraill sydd yn gysylltiedig eu hunain drwy PPC.

1.6 Mae PPC yn cydnabod bod ystyriaethau BC yn creu risgiau ariannol o bwys i asedau'r Awdurdodau Cyfansoddol a ddelir o fewn PPC, a'u bod hefyd yn cyflwyno cyfleoedd buddsoddi. Mae ystyriaethau o'r fath yn berthnasol i'r modd y buddsoddir asedau'r Awdurdodau Cyfansoddol a sut bydd cyfrifoldebau stiwardiaeth yn cael eu cyflawni.

1.7 Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu gan PPC yn flynyddol, a phe bai raid, caiff newidiadau i'r polisi eu cynnig i'r CBLl a'r GS a'u cytuno ganddynt. Er mwyn cyfrannu at yr adolygiad hwn o'r polisi, bydd PPC yn ymgynghori â phob Awdurdod Cyfansoddol neu'n gofyn am eu barn a'u gofynion.

1.8 Wrth ddatblygu a gweithredu'r polisi hwn, bydd PPC yn ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2016, Cod Ymarfer Cyffredinol y Rheoleiddiwr Pensiynau, unrhyw ganllawiau a ddarperir gan Fwrdd Cynghori'r Cynllun ("SAB"), gan gynnwys y farn ar ddyletswydd ymddiriedolwyr, y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Cymru.

1.9 Wrth gynnal a gweithredu ar y polisi hwn, bydd gan y PPC ddeialog barhaus gyda'i Gweithredwr, Rheolwyr Buddsoddi, Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu (Darparwr PacY), ac Ymgynghorydd Trosolwg, yn ogystal ag Awdurdodau Cyfansoddol y Bartneriaeth, sef y rhai y

gwneir buddsoddiadau er eu mwyn. Bydd y Bartneriaeth hefyd yn ceisio mewnbwn gan drydydd partion lle bo'n briodol.

## 2 Uchelgais a chredoau

2.1 Uchelgais hirdymor PPC yw arddangos arweinyddiaeth ar ymarferion BC wrth reoli asedau ar gyfer ac ar ran yr Awdurdodau Cyfansoddol. Ar y cyd â'r GS a'r CBLl, bydd PPC yn diweddaru ei gynllun busnes blynyddol i sicrhau bod digon o amser ac adnoddau yn cael eu darparu i weithredu gofynion y polisi hwn.

2.2 Mae PPC yn cydnabod bod datblygu credoau yn cynrychioli'r arfer orau ar gyfer perchnogion asedau. Mewn ymgynghoriad â'r Awdurdodau Cyfansoddol, mae PPC wedi datblygu a chytuno ar y credoau BC a ganlyn sy'n gweithio i danategu ei brosesau gwneud penderfyniadau a llywodraethu.

2.2.1 Rhaid i'r ymddygiadau BC yr ydym yn dymuno eu gweld gan ein holl ran-ddeiliaid gael eu harwain gan PPC;

2.2.2 Mae integreiddio ffactorau ESG, gan gynnwys newid hinsawdd, mewn prosesau buddsoddi yn rhagofyniad ar gyfer unrhyw strategaeth, o ystyried yr effaith bosibl ar risg ac enillion;

2.2.3 Mae PPC, fel arfer, yn fwyaf effeithiol fel buddsoddwr yn ymgysylltu am newid o'r tu mewn, yn enwedig mewn cydweithrediad â buddsoddwyr eraill o'r un meddylfryd, yn hytrach nag fel ymgyrchwr, sy'n lobïo am newid o'r tu allan.

2.2.4 Cawn yr effaith fwyaf ar ymddygiadau corfforaethol pan fyddwn yn siarad ag un llais cytûn. Credwn fod stiwardiaeth effeithiol yn canolbwyntio ar ganlyniadau a byddwn yn defnyddio ein llais i uwch-gyfeirio pryderon ar ran ein Hawdurdodau Cyfansoddol;

2.2.5 Er mwyn gallu goruchwylio arferion RI yn effeithiol mae gofyn am ddatgelu gwybodaeth berthnasol yn glir, a thryloywder wrth adrodd canlyniadau.

2.3 Bydd PPC yn profi'r ymlyniad at y trefniadau buddsoddi y mae'n eu gweithredu yn y credoau hyn ar sail flynyddol. Bydd PPC hefyd yn profi priodoldeb parhaus ei gredoau o dro i dro.

## 3 Strategaeth fuddsoddi

3.1 Mae’r Awdurdodau Cyfansoddol yn gyfrifol yn unigol am bennu strategaeth fuddsoddi (a strwythur gwaelodol y strategaethau hynny, e.e. ehangder daearyddol) ar gyfer eu cronfeydd eu hunain sy'n adlewyrchu eu proffil aelodaeth a sefyllfa gyllido. Y strategaeth fuddsoddi yw'r rhaniad lefel uchel rhwng dosbarthiadau o asedau, rhestredig a phreifat, gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i ecwiti, dyled, eiddo ac isadeiledd. Rôl PPC yw darparu modd i bob Awdurdod Cyfansoddol weithredu'r strategaeth mae wedi cytuno arni.

3.2 Mae PPC yn annog yr Awdurdodau Cyfansoddol yn agored i ddatblygu eu polisi BC eu hunain fel rhan o'u strategaeth fuddsoddi. Mae PPC wedi datblygu'r polisi BC hwn, ac efallai y bydd yn ei addasu o dro i dro, i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â pholisïau'r Awdurdodau Cyfansoddol.

3.3 Bydd PPC yn ymgynghori gydag Awdurdodau Cyfansoddol o leiaf unwaith y flwyddyn i bennu eu gofynion buddsoddi unigol a dyheadau tymor hirach. Bydd PPC yn defnyddio’r wybodaeth hon i flaenoriaethu datblygiad a lansiad offrymau buddsoddi y dyfodol o fewn PPC.

3.4 Ynghyd â'i ymgynghorwyr, bydd PPC hefyd yn ystyried cyfleoedd a gyfyd o well dealltwriaeth o ffactorau ESG. Gallai'r cyfleoedd hyn gynnwys cyfleoedd lleol (Cymru), strategaethau ar thema effaith a/neu gynaliadwyedd, yn ogystal â buddsoddiadau manteisiol cymdeithasol. Mae'n bosib y bydd PPC yn cynnig cyfleoedd o'r fath yn uniongyrchol i'w hystyried gan Awdurdodau Cyfansoddol,
gan gynnwys strategaethau sydd naill ai'n cwrdd â gofynion BC Awdurdodau Cyfansoddol neu sydd â'r potensial i gyflwyno manteision i'r rhanbarthau sy'n ffurfio'r Awdurdodau Cyfansoddol.

## 4 Newid hinsawdd

4.1 Mae PPC yn cydnabod bod newid yn yr hinsawdd yn peri risg systemig i'w rhanddeiliaid, yr Awdurdodau Cyfansoddol. Mae gan newid yn yr hinsawdd y potensial i effeithio ar (ac aflonyddu) ar systemau economaidd, ariannol a chymdeithasol, gan gynnwys effeithio ar enillion ariannol a demograffeg. Mae'r risgiau i'r Awdurdodau Cyfansoddol (ACau) a gyfyd o newid hinsawdd yn cynnwys, ond ddim yn gyfyngedig i:

- 4.1.1 Risgiau ffisegol: megis difrod i eiddo oherwydd llifogydd neu wlybaniaeth is yn achosi cynhaeaf gwael. Gallai Awdurdodau Cyfansoddol deimlo effaith o'r fath yn uniongyrchol neu drwy'r effaith ar enillion a gyflwynir i Awdurdodau Cyfansoddol trwy fuddsoddiadau PPC;
- 4.1.2 Risgiau trawsnewid: y risgiau ariannol sy'n codi o newidiadau mewn polisi a thechnoleg i addasu i economi carbon is, ac i ba raddau y mae'r rhain yn llifo drwodd i'r enillion a gyflwynir i Awdurdodau Cyfansoddol trwy fuddsoddiadau PPC;
- 4.1.3 Risgiau atebolrwydd, sef y costau posib a gyfyd gan bartïon sydd wedi dioddef colled neu ddifrod oherwydd newid hinsawdd sy'n ceisio cael iawndal gan y rhai maent yn eu dal yn gyfrifol, gan gynnwys dosbarthwyr y mae PPC yn buddsoddi ynddynt.

4.2 Mae newid hinsawdd yn cael ei gydnabod gan gyrff rheoleiddio a deddfwyr fel mater y mae'n rhaid i berchnogion asedau a rheolwyr asedau roi sylw pendant iddo. Mae'r ansicrwydd sy'n codi o newid hinsawdd yn golygu bod goblygiadau i Awdurdodau Cyfansoddol drwy'r buddsoddiadau o fewn PPC.

4.3 Bydd PPC yn ymgysylltu â'i darparwyr gwasanaeth i sicrhau y gellir datblygu mecanwaith cyffredin ar gyfer monitro a deall datguddiadau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, gan gynnwys risgiau a datrysiadau, mewn perthynas â holl asedau PPC. Drwy hyn, nod PPC yw darparu cefnogaeth i Awdurdodau Cyfansoddol i ddatblygu a gweithredu eu polisïau rheoli risgiau hinsawdd eu hunain.

4.4 Drwy ei ddarparwyr gwasanaethau a ddirprwyon, bydd PPC yn annog pob cwmni sy'n buddsoddi i ddatgelu yn unol â gofynion y Tasglu ar gyfer Datgeliadau Ariannol sy'n Ymwneud â Hinsawdd (TCFD).

4.5 Mae ymagwedd mwy cyffredinol PPC at ymdrin â'r risg hinsawdd i'w weld yn ei bolisi hinsawdd, sy’n cael ei adolygu’n flynyddol ac sydd ar wefan PPC.

## 5 Natur

5.1 Mae PPC yn cydnabod diraddio a cholled natur fel risg systemig, gyda mwy na hanner GDP byd-eang yn ddibynnol ar natur. Er bod PPC yn deall y bydd materoldeb risg o'r fath yn amrywio yn ôl sector, biomau a daearyddiaeth, mae PPC yn cydnabod pwysigrwydd gwasanaethau ecosystem wrth gefnogi gwytnwch y blaned, yr economi a phobl. Mae PPC yn cydnabod gwydnwch natur ymhellach fel bo'r angen wrth liniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd, gyda diogelu natur yn elfen hanfodol o gyflawni allyriadau sero net byd-eang.

5.2 Mae 'risg natur' yn ymgorffori, ond heb fod yn gyfyngedig i, golli bioamrywiaeth, datgoedwigo, rheoli llifogydd, straen dŵr, colli peillwyr ac erydiad tir, sy'n cael effeithiau canlyniadol ar weithgarwch economaidd. Bydd PPC yn ymdrechu i fonitro ac adrodd ar risg natur, cyn belled ag y bo modd, a bydd yn gweithio gyda'i darparwyr gwasanaeth a'i chynrychiolwyr i sicrhau stiwardiaeth ddigonol ar y mater hwn.

## 6 Hawliau dynol

6.1 Mae disgwyliadau cymdeithas ar gwmnïau mewn perthynas â hawliau dynol ar gynnydd, ynghyd â goblygiadau cyfreithiol a rheoleiddiol. Mae disgwyliadau cynyddol ar gwmnïau i sicrhau eu bod yn gwarchod hawliau dynol yn unol â goblygiadau rhyngwladol, cyfreithiol a rheoleiddiol ar raddfa fyd-eang yn uniongyrchol ac o fewn eu cadwyni cyflenwi.

6.2 Mae'r Bartneriaeth yn cydnabod bod ganddi rwymedigaeth i barchu hawliau dynol, fel a amlinellir yn Egwyddorion Arweiniol y Cenhedloedd Unedig ar Fusnes a Hawliau Dynol, ac i annog ymarfer da sy'n amddiffyn rhag trais a chamfanteisio. Mae hyn yn berthnasol i ddisgwyl cydymffurfiaeth â safonau normadol a deddfwriaeth berthnasol.

6.3 O gofio natur gymhleth llawer o faterion hawliau dynol, mae'r Bartneriaeth o'r farn mai ymarfer stiwardiaeth yw'r ffordd fwyaf addas i ymdrin â'r materion hyn. Felly bydd y Bartneriaeth yn ceisio adnabod ac ymgysylltu â sefydliadau ar faterion hawliau dynol drwy aelodaeth y Bartneriaeth o LAPFF yn ogystal â'r gweithgarwch ymgysylltu gan Ddarparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu y Bartneriaeth.

6.4 Bydd y Bartneriaeth yn adrodd yn flynyddol ar sut y mae'r gweithgarwch ymgysylltu a wnaed gan ei ddarparwyr gwasanaethau a ddirprwyon yn mynd i'r afael â materion hawliau dynol.

## 7 Eithriadau

7.1 Fel buddsoddwyr hirdymor, credwn y dylid buddsoddi'r asedau a fuddsoddir gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) ar ran Awdurdodau Cyfansoddol gyda gorwel amser cymesur. Lle bo angen, gallwn gefnogi'r broses o newid trwy ein gwaith ymgysylltu gan felly ffafrio buddsoddi dros wahardd.

7.2 Mae PPC hefyd yn credu bod rhai meysydd lle nad yw’r buddsoddi yn gyson â rhagolygon buddsoddi hirdymor PPC, ac y gallai’r rhain greu risg ariannol uniongyrchol neu anuniongyrchol i'r Awdurdodau Cyfansoddol. Yn unol â hynny, cyn belled ag y bo'n ymarferol, ni fydd PPC yn buddsoddi mewn:

- Cwmnïau sy'n cael refeniw materol o echdynnu ac/neu gynhyrchu pŵer o glo thermol;
- Cwmnïau sy'n cael refeniw materol o echdynnu cronfeydd olew a nwy anghonfensiynol (olew a nwy’r Arctig; tar/tywod olew; olew a nwy siâl);

- Cwmnïau sy'n ymwneud â chynhyrchu arfau dadleuol; gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i: arfau biolegol a chemegol; arfau rhyfel clwstwr; ffrwydron gwrth-bersonél; ffosfforws gwyn; wraniwm prin;
- Cwmnïau sy'n torri egwyddorion Compact Byd-eang y Cenhedloedd Unedig yn barhaus, neu sydd fel arall yn cyfrannu at dorri cyfraith ddyngarol ryngwladol a lle mae gwaith ymgysylltu wedi dangos nad oes unrhyw obaith uniongyrchol o gywiro'r pryderon am hynny.

7.3 Mae PPC wedi datblygu rheolau gweithredu manylach sy'n diffinio cwmpas a gweithrediad y polisi hwn ymhellach. Bydd PPC yn dirprwyo'r gwaith o weithredu ei pholisi gwahardd i'w Rheolwyr Buddsoddi a bydd yn monitro cydymffurfiaeth â'r rheolau gweithredu yn barhaus.

7.4 Bydd PPC yn adrodd, pob chwarter, ar ei chydymffurfiaeth â'r polisi hwn i Awdurdodau Cyfansoddol.

7.5 Yn y lle cyntaf, bydd y polisi hwn yn berthnasol i'r buddsoddiadau ecwiti rhestredig ac incwm sefydlog hynny a sefydlwyd gan PPC neu ar ran PPC. Bydd PPC yn ymgynghori â'i Rheolwyr Buddsoddi a rhanddeiliaid eraill gyda'r bwriad o ymestyn cwmpas y polisi hwn.

## 8 Gweithredu'r strategaeth

8.1 Mae PPC yn disgwyl i'r Rheolwyr Buddsoddi a gaiff eu cyflogi i reoli asedau PPC, ystyried risgiau ESG fel rhan o'u proses ddadansoddi a gwneud penderfyniadau ar fuddsoddiadau. Mae PPC hefyd yn disgwyl i'w Reolwyr Buddsoddi allu arddangos a thystiolaethu safonau uchel yn y modd maent yn integreiddio ystyriaethau BC. Os bydd raid, bydd PPC neu ei ddarparwyr gwasanaethau yn ymgysylltu â rheolwyr buddsoddi sy'n methu â bodloni disgwyliadau PPC i gytuno ar gynllun i ymdrin ag unrhyw ddiffygion.

8.2 Ym mhob amgylchiad perthnasol, mae PPC yn disgwyl i'w Reolwyr Buddsoddi fod yn llofnodwyr i'r Egwyddorion Buddsoddi Cyfrifol a Chod Stiwardiaeth y DU gan y Cyngor Adrodd Ariannol (FRC).

8.3 Bydd PPC yn ymgysylltu â'i Reolwyr Buddsoddi yn barhaus i sicrhau bod ffactorau ESG yn cael eu hadlewyrchu'n dryloyw mewn prosesau gwneud penderfyniadau a bod modd tystiolaethu'n briodol y dull a ddefnyddiwyd i reoli ffactorau ESG. Mae PPC yn disgwyl i brosesau o'r fath ymestyn tu hwnt i ddibyniaeth lwyr ar raddau/data trydydd parti.

8.4 Mae PPC yn cydnabod dylanwad meincnodau ar y dewis o asedau o fewn mandadau yn seiliedig ar reolau neu fandadau tracio mynegai a reolir. Lle bo'n briodol, bydd PPC yn gweithio gyda'i Reolwyr Buddsoddi ac Awdurdodau Cyfansoddol i sicrhau bod goblygiadau posib ac effaith ffactorau ESG ar wahanol agweddau wedi'u deall yn briodol.

## 9 Stiwardiaeth

9.1 Mae PPC yn credu y gallai methu ag arfer hawliau pleidleisio neu hawliau eraill sydd ynghlwm ag asedau fod yn groes i fuddion buddiolwyr yr Awdurdodau Cyfansoddol. Mae PPC hefyd yn credu bod ymgysylltu'n llwyddiannus â chwmnïau sy'n buddsoddi yn gallu diogelu ac ehangu gwerth hirdymor buddsoddiadau Awdurdodau Cyfansoddol o fewn PPC.

9.2 Mae PPC wedi penodi Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu i ymgymryd â phleidleisio drwy ddirprwy ar yr holl gyfranddaliadau a ddelir yn Is-Gronfeydd y Bartneriaeth (a, lle bo hynny'n berthnasol, y cronfeydd ecwiti goddefol sydd wedi'u cronni), ac i ymgysylltu'n uniongyrchol â

chwmnïau (a ddelir o fewn yr Is-Gronfeydd gweithredol a'r mandadau goddefol) ar ran PPC. Mae PPC yn deall y gall gweithgaredd stiwardiaeth fod yn wahanol: ar draws asedau rhestredig yn erbyn asedau heb eu rhestru; ac ar draws rhanbarthau, o ystyried y cyd-destunau rheoleiddiol gwahanol lle rydym yn ceisio cymhwyso Polisi Stiwardiaeth y Bartneriaeth.

9.3 Mae PPC yn cydnabod bod ei Darparwr PacY yn cynnal Polisi Pleidleisio trwy Ddirprwy, y mae PPC wedi'i adolygu. Mae PPC yn credu bod yr egwyddorion sydd wedi'u hymgorffori ynddo yn adlewyrchu amcanion y PPC yn briodol ac felly mae wedi cyfarwyddo ei Darparwr PacY i bleidleisio'r holl gyfranddaliadau a ddelir yn Is-gronfeydd PPC yn unol â'r Polisi Pleidleisio trwy Ddirprwy. Bydd PPC yn adolygu'r polisi pleidleisio ar y cyd â'i Ddarparwr PacY, ymgynghorwyr a Rheolwyr Buddsoddi yn flynyddol.

9.4 Mae PPC yn cydnabod y gall ei Rheolwr Buddsoddi goddefol fabwysiadu un polisi pleidleisio ar draws ei chronfeydd cyfunol, lle nad oes trefniadau eraill wedi'u gweithredu. Bydd PPC yn adolygu priodoldeb polisi fel hyn o bryd i'w gilydd. Bydd PPC yn ymgysylltu â'i Rheolwr Buddsoddi goddefol a'i Darparwr PaY i ystyried sut y gellir ymestyn polisi pleidleisio PPC i'r holl fuddsoddiadau a reolir gan ei Rheolwr Buddsoddi goddefol.

9.5 Bydd PPC yn derbyn adroddiadau ar holl weithgarwch pleidleisio, gan gynnwys manylion unrhyw bleidleisiau na chafodd eu bwrw ac esboniadau lle na chafodd pleidleisiau eu bwrw yn unol â'r egwyddorion cytunedig ar sail chwarterol. Bydd PPC yn trafod unrhyw faterion sy’n achosi pryder gyda’i Ddarparwr PacY, Rheolwyr Buddsoddi neu ddirprwyon eraill, yn ôl y gofyn.

9.6 Mae'r holl Awdurdodau Cyfansoddol, yn ogystal â PPC ei hun, yn aelodau o Fforwm Cronfeydd Pensiwn Awdurdod Lleol (LAPFF). Fel aelodau, mae'r Awdurdodau Cyfansoddol yn derbyn rhybuddion pleidleisio LAPFF, wedi'u cyfeirio at faterion neu ddosbarthwyr penodol, yn barhaus. Mae WPP wedi cyfarwyddo ei Darparwr PacY i ystyried sylwedd y rhybudd pleidleisio cyn bwrw pleidleisiau ar ran y WPP. Tra bod y Darparwr PacY yn cadw cyfrifoldeb am y penderfyniad terfynol ar unrhyw bleidlais. Pan fo pleidlais yn anghyson â rhybudd pleidleisio LAPFF, mae'r PPC yn ei gwneud yn ofynnol i'w Darparwr PacY ddarparu esboniad o'r gwahaniaeth.

9.7 Mae PPC yn mabwysiadu dull ar sail tystiolaeth o asesu gweithgarwch ymgysylltu. Bydd PPC yn derbyn adroddiad ar yr holl weithgarwch ymgysylltu a wneir gan y Darparwr PacY bob chwarter. Bydd PPC yn trafod unrhyw faterion sy’n achosi pryder gyda’r Darparwr PacY.

9.8 Mae PPC hefyd yn ystyried, mewn rhai achosion, bod ei Rheolwyr Buddsoddi mewn sefyllfa dda i ymgysylltu â rheolwyr cwmnïau sy'n buddsoddi oherwydd bodolaeth perthnasau ymchwil rhwng y rheolwyr a'r cwmnïau buddsoddi tu ôl iddynt. Mewn achosion o'r fath, mae PPC yn disgwyl y bydd gweithgarwch ymgysylltu yn digwydd trwy'r berthynas hon ac y dylai ei reolwyr allu dangos, pan gânt eu herio, y rheswm am unrhyw weithgarwch ymgysylltu ac amcanion yr ymgysylltu hwnnw. Bydd PPC yn derbyn adroddiadau yn flynyddol ar unrhyw ymgysylltu a wnaed gan ei Rheolwyr Buddsoddi. Mae hyn yn cynnwys o fewn y rhaglenni buddsoddi yn y farchnad breifat.

9.9 Mae dull PPC o stiwardiaeth wedi'i nodi yn ei Pholisi Stiwardiaeth, sy'n cael ei adolygu'n flynyddol ac sydd i'w weld ar wefan PPC.

## 10 Cydweithio

10.1 Mae PPC yn credu bod gan gydweithio rôl bwysig i helpu'r PPC gyflawni ei amcanion BC. Ar y cyd â'i Ddarparwr PacY, bydd PPC yn asesu cyfleoedd cydweithio posib yn barhaus a bydd yn hysbysu ac yn gofyn am fewnbwn gan yr Awdurdodau Cyfansoddol ar unrhyw gyfle o'r fath y mae'n tybio sy'n berthnasol.

10.2 Mae PPC ynghyd â'r holl Awdurdodau Cyfansoddol yn aelodau o'r Fforwm Cronfeydd Pensiwn Awdurdod Lleol (LAPFF). Mae LAPFF yn ymgysylltu â chwmnïau ar ran ei holl aelodau.

10.3 Mae gan PPC uchelgais i gydweithio gyda buddsoddwyr a chyrff cynrychioladol eraill sydd o'r un meddylfryd er mwyn gwneud y mwyaf o ddylanwad asedau PPC ar gwmnïau sy'n buddsoddi. Ynghyd â'i Ddarparwr PacY, bydd PPC yn ceisio adnabod mentrau a chydweithrediad BC, a arweinir gan fuddsoddwyr, y gall eu cefnogi'n frwd.

10.4 Bydd PPC yn annog rheolwyr buddsoddi gwaelodol i gymryd rhan mewn sesiynau ymgysylltu cydweithredol neu eu cefnogi pan ystyrir eu bod er budd ariannol cyffredinol gorau'r Awdurdodau Cyfansoddol.

10.5 Pan geir unrhyw gyfle addas, bydd PPC yn parhau i gydweithio gyda'r prosiect cydweithio BC traws-gronfa.

## 11 Benthyca gwarannau

11.1 Bydd PPC yn ystyried cymhwyso benthyca gwarannau ar sail Is-gronfa unigol, yn amodol ar ymgynghori ag Awdurdodau Cyfansoddol mewn perthynas â phob Is-gronfa sylfaenol ar adeg sefydlu. Ar gyfer yr Is-gronfeydd hynny o fewn cwmpas, ni ystyrir bod mwy na 25% o gyfanswm asedau dan reolaeth ar unrhyw un adeg yn cael eu benthyca, gyda byffer o 5% o swm enwol pob daliad unigol yn cael ei gynnal fel rhywbeth nad yw ar gael i'w fenthyg.

11.2 Er mwyn sicrhau bod ei hawliau pleidleisio'n cael eu gweithredu'n llawn, cyn belled ag y bo'n ymarferol, bydd PPC yn galw yn ôl yr holl stociau sydd ar fenthyg cyn unrhyw gyfarfod lle gellir arfer hawliau pleidleisio ar draws yr Is-gronfeydd ecwiti gweithredol o fewn cwmpas.

## 12 Monitro, Adrodd a Mesur

12.1 Nod PPC yw bod yn ymwybodol o risgiau a materion ariannol o bwys sy'n ymwneud ag ESG mewn asedau PPC, a'u monitro. Drwy ymgynghori ag Awdurdodau Cyfansoddol, Ymgynghorwyr a'r Rheolwyr Buddsoddi, mae’r PPC wedi datblygu metrigau monitro priodol ar gyfer buddsoddiadau presennol ac yn parhau i gytuno ar fetrigau priodol yng nghyswllt pob buddsoddiadau newydd. Mae metrigau o'r fath yn cynnwys elfennau sy'n ymwneud â hinsawdd. Bydd PPC angen i reolwyr buddsoddi gynnwys metrigau o'r fath yn eu hadroddiadau chwarterol i Awdurdodau Cyfansoddol.

12.2 Bydd PPC yn cynorthwyo Awdurdodau Cyfansoddol i gasglu data a pharatoi i adrodd yn unol a gofynion fframwaith y Tasglu ar gyfer Datgeliadau Ariannol sy’n ymwneud a Hinsawdd.

12.3 Mae'n ofynnol gan PPC bod cymwysterau BC pob Rheolwr Buddsoddi a benodir yn destun adolygiad blynyddol. Ar y cyd â'r partion perthnasol, bydd PPC yn datblygu fframwaith adrodd priodol ar gyfer ei Reolwyr Buddsoddi.

12.4 Bob blwyddyn bydd PPC yn paratoi ac yn cyhoeddi adroddiad yn manylu ar y camau gweithredu a gymerwyd er mwyn cyflawni'r polisi hwn a'r canlyniadau a gafwyd, gan ddilyn

egwyddorion Cod Stiwardiaeth FRC UK 2020.

**13 Arall**

13.1 Mae PPC yn cydnabod yr angen am addysg barhaus i'r Awdurdodau Cyfansoddol ar ystod eang o faterion buddsoddi, gan gynnwys BC. Fel rhan o'i Gynllun Hyfforddiant Blynyddol, bydd PPC yn sicrhau bod o leiaf un sesiwn hyfforddiant ffurfiol yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar BC.

13.2 Mae PPC yn disgwyl i bob rheolwr buddsoddi a gyflogir ar ran PPC ddatgelu costau yn unol â Chod Tryloywder SAB.

13.3 Bydd PPC yn adolygu cydymffurfiaeth pob parti â'r polisi hwn yn flynyddol. Bydd PPC yn cyhoeddi canlyniadau eu hasesiad mewn adroddiad cyhoeddus.

**14 Gwybodaeth Bellach**

14.1 Os oes arnoch angen rhagor o fanylion ar y Polisi BC, cysylltwch â walespensionpartnership@carmarthenshire.gov.uk ac ewch ar wefan PPC.

Mawrth 2026

**Geirfa**

Ymgysylltu yn cyfeirio at y broses o ryngweithio rhwng buddsoddwr (neu ei ddirprwy) a rheolwyr cwmni sy'n buddsoddi gyda'r nod o greu newid yn y modd y mae'r cwmni gwaelodol yn cael ei reoli neu ei lywodraethu.

ESG yn cael ei ddefnyddio'n gyfunol i ddisgrifio cyfres o wahanol ffactorau risg sy'n codi o faterion Amgylcheddol (e.e. prinder adnoddau, rheoli gwastraff, llygredd, effeithlonrwydd ynni), Cymdeithasol (e.e. iechyd a diogelwch, amrywiaeth yn y gweithlu, amodau gwaith, diogelu data) a Llywodraethu (e.e. strwythur y bwrdd, moeseg busnes, hawliau cyfranddalwyr, iawndal gweithredol).

Effaith yn derm a ddefnyddir yn gyffredinol i ddisgrifio'r deilliant cymdeithasol neu amgylcheddol sy'n codi o fuddsoddiad neu benderfyniad buddsoddi penodol, sy'n wahanol i'r deilliant ariannol cysylltiedig.

Rheolwyr Buddsoddi yn cyfeirio at y rheolwyr buddsoddi hynny a benodir yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan PPC er dibenion rheoli asedau ar ran PPC.

Gweithredwr yn golygu Link Fund Solutions fel gweithredwr penodedig y Cynllun Cytundebol wedi'i Awdurdodi a ddefnyddir i weithredu is-gronfeydd i PPC.

Egwyddorion ar gyfer Buddsoddi Cyfrifol sef rhwydwaith byd-eang o berchnogion asedau, rheolwyr asedau a darparwyr gwasanaeth sydd â'r nod o ymestyn arferion BC.

Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu yn golygu endid a gyfarwyddir i gynghori ar ddatrysiadau a/neu i fwrw pleidleisiau arnynt ar ran perchennog ased.

BC yn cyfeirio at arferion buddsoddi sy'n integreiddio'r ystyriaeth o ffactorau ESG mewn prosesau rheoli buddsoddiadau ac arferion perchnogaeth, gan gydnabod y gallai'r ffactorau hyn gael effaith o bwys ar berfformiad ariannol.

Stiwardiaeth yn disgrifio gweithgareddau buddsoddwyr wrth arfer yr hawliau a'r cyfrifoldebau sydd ynghlwm â pherchnogaeth asedau. Gallai'r arferion hyn gynnwys pleidleisio ar gyfranddaliadau ac ymgysylltu â rheolwyr cwmni ond maent hefyd yn cynnwys goruchwylio'r rhai y dirprwyir cyfrifoldebau o'r fath iddynt.

Cod Stiwardiaeth y DU – cyfres o egwyddorion a darpariaethau a gynhyrchir gan *y Financial Reporting Council* sy'n amlinellu'r arfer gorau mewn gweithgarwch stiwardiaeth gan Berchnogion Asedau a Rheolwyr Asedau.

Amcanion Datblygu Cynaliadwy'r CU – cyfres o 17 amcan byd-eang ar gyfer 2030 a sefydlwyd gan Gynulliad Cyffredinol y CU yn 2015.